CYNGOR TREF FFESTINIOG TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor ● 5 Stryd Fawr ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ✉ clerc @cyngortrefffestiniog.cymru

COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 15fed o FEHEFIN 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Bedwyr Gwilym

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Erwyn Jones, Annwen Daniels, Rory Francis a Mel Goch ap Meirion

9906/06/17 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Will G. Roberts

9907/06/17 DERBYN DATGANIAD DERBYN SWYDD GAN GYNGHORWYR

PENDERFYNIAD: Arwyddwyd Datganiad Derbyn Swydd Cynghorydd gan y Cynghorwyr Rory Francis a Mel Goch ap Meirion o flaen Clerc y Dref.

9908/06/17 DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Annwen Daniels 9920/06/17 Sedd Wag

9909/06/17 MATERION BRYS
Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cyngor gael gwybodaeth bod gweithredoedd Y Parc wedi eu derbyn erbyn hyn.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Cafwyd gwybodaeth gan Y Dref Werdd bod wal ger adeilad yr Urdd mewn cyflwr difrifol.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i gynghorwyr y ward wneud ymholiadau ynglŷn â pherchnogaeth y wal.

Bu i'r Cyngor gydymdeimlo a theulu Irfon Williams yn eu colled diweddar.

9910/06/17 GISDA

Nid oedd Sian E Tomos a Ceri Cunnington o GISDA yn bresennol i drafod datblygiadau diweddar

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac ail drefnu at fis Gorffennaf.

9911/06/17 MATERION YR HEDDLU

Roedd y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Delyth Edwards a Sophie Evans yn bresennol yn y cyfarfod.

Cafwyd gwybodaeth bod dipyn o dorri fewn wedi digwydd yn ddiweddar. Dywedwyd bod cyffuriau yn enwedig 'crack cocaine' yn rhan o'r broblem yma.

Bydd yr Arolygydd yn bresennol yng nghyfarfod Gorffennaf a gofynnwyd am wybodaeth ynglŷn â beth fydd dan sylw gan y Cyngor er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir ganddo.

Mae'r Heddlu wedi cael cyfarfodydd ar y cyd gyda Chartrefi Cymunedol Cymru ynglŷn â phroblemau yn yr ardal.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a gofyn am gael ystadegau troseddu ar gyfer yr ardal gan yr Arolygydd.

9912/06/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL 18FED O FAI 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Annwen Daniels yn cynnig a'r Cynghorydd Erwyn Jones yn eilio

9913/06/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 18fed MAI 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Annwen Daniels yn cynnig a'r Cynghorydd Erwyn Jones yn eilio

9914/06/17 CYFRIFON I'W TALU

Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	997.60	Rhif Siec.	002442
J P Farrington (Garddio)	£	510.00	Rhif Siec.	002443
Owain Aeron (Caeau chwarae)	£	830.00	Rhif Siec.	002444
St John Ambulance (Diffibriliwr)	£	2016.00	Rhif Siec.	002445
Cyngor Gwynedd (Cyfraniad toiledau)	£	4000.00	Rhif Siec.	002446
Eifion Stores (Paent ayb)	£	220.20	Rhif Siec.	002447
Dylan Jones (Paentio)	£	300.00	Rhif Siec.	002448
Viking Direct (Defnydd swyddfa)	£	89.34	Rhif Siec.	002449
Arian Parod	£	50.00	Rhif Siec.	002450
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
BT (Ffôn)	£	33.72	Debyd Uniongyrchol	
BT (Band eang)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	200.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9915/06/17 ARIAN I MEWN

Zurich Municipal (Y Parc) £ 5890.00

9916/06/17 CEISIADAU ARIANNOL

Blaenau Bendigedig

(Cystadleuaeth Blaenau yn ei Blodau) £ 150.00 Rhif Siec. 002452

9917/06/17 CYFRIFON 2016 - 2017

Bu i gyfrifon 2016/2017 y Cyngor Tref wedi iddynt gael eu harchwilio gan yr Archwilydd Mewnol gael eu trafod.

PENDERFYNIAD: Cafwyd y cyfrifon yn gywir.

9918/06/17 CYFRIFON 2016 - 2017

Derbyn cyfrifon 2016/2017 y Cyngor Tref ac unrhyw sylwadau

PENDERFYNIAD: Bu i'r cyfrifon a sylwadau'r Archwilydd Mewnol gael eu derbyn gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Erwyn Jones yn eilio. Bu i'r datganiadau cyfrifydd a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016 - 2017 gael eu harwyddo.

FE AETH Y CYFARFOD YN GAEEDIG I'R CYHOEDD
I DRAFOD EITEMAU RHIF 9919/06/17, 9920/06/17 ac 9921/06/17

9919/06/17 WARD BOWYDD A RHIW

Cais am gyfetholiad gan Ronwen D Roberts

PENDERFYNIAD: I gyfethol Ronwen D Roberts fel cynghorydd ar ward Bowydd a Rhiw

9920/06/17 SEDD WAG

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Annwen Daniels

Cais am gyfetholiad gan R Glyn Daniels

PENDERFYNIAD: I gyfethol R Glyn Daniels fel cynghorydd ar ward Diffwys a Maenofferen.

9921/06/17 SEDD WAG

Cais am gyfetholiad gan Mark Thomas

PENDERFYNIAD: I gyfethol Mark Thomas fel cynghorydd ar ward Conglywal gan nad oes unrhyw gynrychiolaeth o'r ward ar y Cyngor Tref.

AGORWYD Y CYFARFOD I'R CYHOEDD

9922/06/17 CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0466/03/HY
Ymgeisydd Cardtronics
Co-op, Blaenau Ffestiniog
Cadw arwyddion peiriant ATM
Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif C17/0468/03/HY
Ymgeisydd Cardtronics
Co-op, Blaenau Ffestiniog
Cais i gadw peiriant ATM
Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0110/03/LL
Ymgeisydd Llechi Cymru
Chwarel Oakeley, Blaenau Ffestiniog
Symud deunydd o ddynodon weithio mwynau
Caniatáu

PENDERFYNIAD: Fel yr uchod a derbyn y wybodaeth parthed penderfyniadau gan yr Awdurdod Cynllunio.

9923/06/17 CAMERÂU CC

Mae angen uwchraddio recorders ein hoffer ccc oherwydd trafferthion gyda chael diweddariad i'r meddalwedd. Wrth newid y recorders bydd cyrchiad pell y camerâu i gyd yn dilyn yr un drefn a bydd posib cael camerâu HD pan fydd angen newid camera. Mae sustemau analog yn darfod ac nid yw'n bosib cael unrhyw ddiweddariad iddynt.

PENDERFYNIAD: I dderbyn pris o £1500 i ddiweddaru 5 recorder.

9924/06/17 RHYBUDD O GYNIGIAD
GAN Y CYNGHORYDD RORY FRANCIS

'Rwyf yn cynnig y dylai'r Cyngor ofyn am gyfarfod safle gyda swyddogion o Gyngor Gwynedd a Chynghorwyr lleol wrth Ysgol Maenofferen i drafod diogelwch ar y ffordd tra bod plant yn cael eu cludo i'r ysgol ac yn ôl. Yn ystod yr Arolwg diweddar, fe leisiodd Estyn bryder am ddiogelwch wrth i'r plant gael eu hebrwng o'r ysgol, ac mae'r ysgol wedi mabwysiadu trefn newydd. Ond mae pryderon yn parhau fod cymaint o drafnidiaeth a phobl yn symud mewn lle mor gyfyng ac mae'r rhieni a staff yn awyddus i drafod y gwahanol opsiynau i leihau'r perygl i'r plant.'

PENDERFYNIAD: Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Annwen Daniels a chytunwyd i drefnu cyfarfod safle am tua 3.00pm gyda Chyngor Gwynedd ac i wahodd cynghorwyr y ward, pennaeth yr ysgol a chynrychiolaeth o Fwrdd Llywodraethu'r ysgol i'r cyfarfod.

9925/06/17 IECHYD

Cafwyd gwybodaeth bod Canolfan Coffa i'w agor ym mis Medi.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9926/06/17 PARTNERIAETH Y PARC

Cafwyd gwybodaeth bydd beirniaid Y Faner Werdd yn beirniadu'r Parc eto wythnos nesaf.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9927/06/17 CAEAU CHWARAE

Cafwyd trafodaeth ar adroddiad arolwg misol y caeau chwarae gan yr archwiliwr. Cafwyd gwybodaeth bod graffiti anweddus ar y lloches ieuenctid ar y Parc Sglefrio

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr adroddiadau ac i drefnu i lanhau'r graffiti.

9928/06/17 CAEAU CHWARAE
Y PARC -

Cafwyd trafodaeth ynglyn a darfod y gwaith angenrheidiol cyn dechrau gwyliau'r ysgol

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc weithredu ar ran y Cyngor er mwyn darfod y gwaith angenrheidiol yn y Parc cyn gwyliau'r ysgol.
I dderbyn pris o £ 10.58 am fin 240 litr gwastraff cyffredinol a phris o £6.66 am fin 240 litr ail gylchu pob tro byddent yn cael eu gwagio gan gwmni Grays Waste Management Ltd gyda'r cwmni yn darparu'r biniau.

9929/06/17 CAEAU CHWARAE
BINIAU NEWYDD

Mae 5 bin newydd gyda logo'r Cyngor Tref arnynt wedi eu harchebu gan gwmni Broxap – bu trafodaeth ynglyn a'u lleoli yn y Parc yn lle'r hen finiau.

PENDERFYNIAD: I leoli'r biniau newydd yn y Parc ac i symud un o'r biniau presennol o'r Parc i gae Sgwâr Oakeley.

9930/06/17 PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Yn ddiweddar mae cyflenwad o goed afal o ansawdd a tharddiad addas wedi dod i feddiant Adran Cadwraeth, Coed ac Amaeth, Parc Cenedlaethol Eryri. Maent yn awyddus i rannu'r coed ymysg cymunedau lleol ac felly yn cynnig pedair coeden afal i ni am ddim.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y coed a chael cytundeb Y Dref Werdd i gyd weithio gyda'u plannu.

9931/06/17 Y DREF WERDD

Derbyn y bin ar gyfer tir cymunedol Yn Hafan Deg, Tanygrisiau fel rhodd i'r Cyngor Tref a chadarnhau trefniadau ar gyfer ei wagio.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y bin a chadarnhau bydd cwmni Cricieth Cleaning yn ei wagio'n wythnosol yn ystod misoedd yr haf a phob pythefnos yn y gaeaf ar gost ychwanegol o £15.50 y tro.

9932/06/17 PLANTLIFE

Prosiect newydd sy'n cael ei gynllunio yng ngogledd a chanolbarth Cymru yn canolbwyntio ar goetiroedd derw'r Iwerydd. Mae'r coetiroedd yn llawn o fywyd gwyllt, gan gynnwys cennau a mwsoglau yn ogystal ag adar a gloÿnnod byw, gyda rhai rhywogaethau yn bresennol yng Nghymru yn unig. Nod y prosiect yw helpu i adfer rhai o'r coetiroedd hyn a chefnogi gwell rheolaeth ohonynt yn ogystal â helpu pobl i archwilio, dathlu ac adrodd hanes y lleoedd arbennig hyn. Mae'r prosiect yn cael ei ddatblygu gan Plantlife Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, RSPB a Coed Cadw.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i ofyn i Plantlife gysylltu â'r Dref Werdd gan fod hyn o fewn eu gwaith nhw.

9933/06/17 CYNGOR GWYNEDD

Rhaglen Waith mis Mehefin

Pob ffordd	Ffestiniog	Torri gwair
Di-ddosbarth	Ffordd Bryn Rhug	Arwisgo
Di-ddosbarth	Ffordd Teiliau Mawr	Arwisgo
Di-ddosbarth	Ffordd Chwarel Bwlch	Arwisgo

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9934/06/17 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Bu i'r Cynghorwyr Annwen Daniels ac Erwyn Jones fynychu cyfarfod Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan yn ddiweddar.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9935/06/17 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Cafwyd gwybodaeth i'r Cynghorydd Annwen Daniels (Cadeirydd Cyngor Gwynedd) gael ei phenodi ar Bwyllgor Tan ac Achub Gogledd Cymru.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9936/06/17 CYNGOR BWRDEISTREFOL SIROL CONWY

Gwybodaeth Cludiant Cyhoeddus

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10yh

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 13eg GORFFENNAF 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 13eg GORFFENNAF 2017
AR Y 6ed GORFFENNAF 2017